**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-06-02(p.3)**

**Dyddiad** **27 Chwefror 2002**
**Lleoliad** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl** **Gwerthuso'r Cynlluniau Grant i Ofalwyr ac Asesiadau Gofalwyr**
**[HSS-16-01(p.4)]** **[HSS-01-02(p.1)]**

## 1. Diben

1.1 Papur i'w nodi ar werthuso'r Cynlluniau Grant i Ofalwyr a'r Asesiadau Gofalwyr.

## 2. Cefndir

2.2 Yn y cyfarfod ar 21 Tachwedd, wrth ymateb i bapur ar y Grant Arbennig i Ofalwyr [HSS-16-01 (p.4)] gofynnodd yr Aelodau am asesiad i weld ymhle y mae'r arian ychwanegol yn cael ei wario ac a oes gwasanaethau ychwanegol yn cael eu darparu yn sgil hynny.

2.3 Addewais hefyd yn y cyfarfod ar 9 Ionawr 2002, yn sgil sylwadau'r Aelodau ar Adroddiad Misol y Gweinidog [HSS-01-02 (p.1)], y byddwn yn edrych i weld pa mor ymarferol fyddai darparu ystadegau ar nifer yr asesiadau gofalwyr a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol.

## 3. Gwerthuso'r Cynlluniau Grant Arbennig i Ofalwyr

3.1 Ceir yn Atodiad A dabl yn dangos dyraniadau grant a gwariant pob awdurdod lleol o'r Grant Arbennig i Ofalwyr ar gyfer 2000-2001 a 2001-2002. Yn Atodiad B, ceir enghreifftiau o rai o'r ffyrdd y cafodd y grant ei ddefnyddio.

3.2 Un o amodau'r grant yw y dylai'r gwasanaethau a ariennir drwyddo fod yn wasanaethau ychwanegol i'r rheiny a ddarperir drwy'r brif ffrwd ariannu. Mae'r grant yn destun archwiliad gan yr Archwilydd Dosbarth er mwyn sicrhau y caiff yr arian ei ddefnyddio at y prif ddiben a nodir yn amodau a thelerau'r Adroddiad Grant Arbennig. Er mwyn rhoi mwy o sicrwydd eto ynghylch ychwanegedd ar lefel Cymru gyfan, rwyf wedi mynd ati i gomisiynu dadansoddiad annibynnol o adroddiadau monitro awdurdodau lleol ar hynt gwasanaethau a ariannwyd drwy'r grant arbennig i ofalwyr ar gyfer 2000-2001. Mae amodau'r grant hefyd yn mynnu bod awdurdodau lleol yn rhoi copi o'u cynllun mewn Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ardal yr awdurdod lleol a sicrhau bod y cynllun ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen yn swyddfa'r awdurdod.

Adroddiad Perry a Felce – Medi 2001

3.3 Mae Jonathan Perry a David Felce o Ganolfan Anableddau Dysgu Cymru ym Mhrifysgol Cymru,

Caerdydd wedi cynnal astudiaeth o gynlluniau monitro pob un o'r 22 o awdurdodau lleol ar y gwasanaethau hynny a ariannwyd drwy'r Grant Arbennig I Ofalwyr 2000-2001. Eu casgliadau'n fras oedd bod:

- tystiolaeth gynnar bod mwy o wasanaethau ar gael a bod yr awdurdodau lleol yn barod i arallgyfeirio, er enghraifft drwy Gynlluniau Rhwydweithiau Cymorth i hyrwyddo annibyniaeth, a bod mwy o gynlluniau trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig ac ati

- tystiolaeth bod pob awdurdod yn ymgynghori â gofalwyr a mudiadau gofalwyr drwy grwpiau strategaethau gofalwyr lleol

3.4 Mae'n rhaid cofio bod blwyddyn gyntaf y grant (2000-2001) wedi digwydd cyn cyflwyno Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000, a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2001. Defnyddiwyd y grant arbennig yn bennaf felly y flwyddyn honno ar gyfer gwasanaethau seibiant. Serch hynny, mae'r awdurdodau lleol wedi datblygu ac wedi darparu mwy o wasanaethau seibiant, a'r rheiny'n fwy hyblyg a blaengar. Mae'n debyg hefyd y bydd yr awdurdodau lleol yn trafod â gofalwyr wrth gynllunio gwasanaethau.

3.5 Bydd y trefniadau archwilio a dadansoddi annibynnol a grybwyllir uchod yn parhau o flwyddyn i flwyddyn. Bydd adroddiad arall yn cael ei gomisiynu ym mis Gorffennaf 2002 i werthuso adroddiadau cynnydd yr awdurdodau lleol ar grant 2001-2002. Cynhelir archwiliad ar grant 2001-2002 hefyd ym mis Rhagfyr gan yr Archwilydd Dosbarth.

Archwiliad Annibynnol - Mudiadau Gofalwyr

3.6 Mae archwiliad annibynnol wedi'i gynnal gan fudiadau Gofalwyr (Cynhalwyr Cymru a Chroesffyrdd) ar grant 2001-2002 sy'n dangos gwelliannau cynnar yn y gwahaniaeth y mae'r grant yn ei wneud i fywydau gofalwyr. Ymddengys bod gofalwyr a mudiadau gofalwyr wedi manteisio ar y cyfleoedd y mae grant 2001-2002 yn eu cynnig i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol i ofalwyr o 1 Gorffennaf 2001. Mae mwy o ryddid o dan Ddeddf 2000 ac arian ychwanegol i gynnal y newidiadau'n golygu bod modd datblygu gwasanaethau a chynlluniau newydd blaengar sydd ar gael yn rhwydd ledled Cymru, yn eu plith:

- Sefydlu tri chynllun Croesffyrdd newydd ac ymestyn y cynlluniau ar draws bwrdeistrefi
- Prosiectau Cynghori a Chyfeillio
- Canolfannau Gwybodaeth a Chyngor - Siopau Un Stop

**4. Asesiadau Gofalwyr – Adran 1 Deddf 2000**

4.1 Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau y caiff y data hwn ei gasglu. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth wedi'i chasglu'n ganolog eto ar nifer yr asesiadau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol. Mae sawl rheswm dros hynny, yn eu plith:

a. Problemau diffinio a chasglu data. Tynnwyd sylw at y rhain yn Nangosyddion Fframwaith Asesu Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol yr Adran Iechyd ar gyfer asesiadau gofalwyr (cliciwch isod i gael manylion). http://www.doh.gov.uk/paf/pdfs/tabled42.pdf http://www.doh.gov.uk/paf/pdfs/textonecolumn.pdf,

b. Mae'r awdurdodau lleol yn gwneud gwaith datblygu neu ddiweddaru ar Systemau Gwybodaeth Reoli wrth iddynt fynd ati i wella gweithdrefnau Rheoli Perfformiad. Erbyn 2003-2004 bydd gwell data'n cael ei gasglu, gan gynnwys data ar asesiadau gofalwyr.

Yn y cyfamser, ceir cynigion newydd i ddarparu adnoddau ar gyfer rhaglen ddatblygu yn 2002-2003 ar ddiffinio a chasglu asesiadau gofalwyr o dan adran 1 Deddf 2000 a chyfuno asesiadau gofalwyr a'r sawl sy'n cael gofal (lle cynhelir y rhain gyda'i gilydd), er mwyn gallu rhoi'r cynllun peilot ar waith yn yr hydref 2002. Bydd hynny'n golygu casglu samplau data ledled Cymru er mwyn darparu:

a. ffigurau perfformiad cychwynnol; a

b. sylfaen ar gyfer model casglu data strwythuredig yn rhan o ddatblygiad y Rhaglen Rheoli Perfformiad.

**5. Cysylltu**

5.1 Cysylltwch â Donna Davies, Yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol , est. 5860